



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales



Y Ffordd Gywir



Dyfodol addas i

blant yng Nghymru

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	5
Hawliau Plant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	7
Gweithio i'r hirdymor	13
- Asesu – Beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc?	14
- Cynllunio llesiant – gwneud plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth	16
- Cynllunio'r gweithlu	20
- Cynllunio ariannol	21
Ymyrraeth gynnar ac atal	26
- Blaenoriaethu Ymyrraeth Gynnar ac Atal wrth Ddylunio Gwasanaeth	27
Cynnwys plant a phobl ifanc	29
- Gwrando ar blant a phobl ifanc a rhoi sylw i'w barn	30
- Dweud wrth blant a phobl ifanc am eu hawliau a darparu gwybodaeth briodol	33
- Bod yn agored, yn oest ac yn dryloyw gyda phlant a phobl ifanc	35
Integreiddio	36
- Alinio	37
- Dysgu ar y cyd, gweithio ar y cyd	39
Gweithredu ar y cyd	40
- Gweithredu ar y cyd	41
- Adolygu a gwella gyda'n gilydd	42
Atodiadau	44

DIOLCHIADAU

Carai Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ddiolch i bob un o'r cyrff cyhoeddus sydd wedi cefnogi ac wedi ymwneud yn gydweithredol â datblygu'r Pecyn Offer a'r broses Hunanasesu.

Mae Simon Hoffman, o Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, sy'n rhan o Brifysgolion Abertawe a Bangor, wedi cydweithio â thimau'r ddau gomisiynydd i helpu i ddatblygu'r Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant. Mae ein diolch yn fawr i Simon a'i gydweithwyr am eu hymroddiad i'r gwaith hwn.

Rhagair

Sally Holland

Comisiynydd
Plant Cymru

Sophie Howe

Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru

Fel comisiynwyr annibynnol Cymru ar gyfer Plant ac ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol mae gennym rolau gwahanol ond diddordebau cyffredin. Rydym ni am alluogi cyrff cyhoeddus i sicrhau bod hawliau plant i fod yn ddiogel, yn iach ac i ffynnu nawr, ar yr adeg hon, yn ganolog i'w cynllunio a'u darpariaeth. Rydym hefyd am sicrhau eu bod yn cynllunio ar gyfer y tymor hir – ar gyfer gweddill bywydau'r plant sy'n byw yn eu cymunedau nawr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol sydd heb eu geni eto. Rydym wedi cydweithio i ystyried sut gall ymrwymiad Cymru i hawliau plant a gydnabyddir yn rhyngwladol weithio gyda Deddf arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddiwallu anghenion plant – nawr ac yn y dyfodol.



Sally Holland
Comisiynydd
Plant Cymru

Yn ôl Sally: ‘Fy rôl i yw diogelu a hybu hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Cymru wedi gwneud ymrwymiad cadarn i hawliau plant, o'r Llywodraeth i ysgolion unigol a gwasanaethau plant. Mae enghreifftiau o arfer rhagorol ar gael ledled Cymru lle mae hawliau plant i gael gwrandawriad, i fod yn rhan o benderfyniadau ac i dderbyn y gwasanaethau a'r cyfleoedd mae arnyn nhw eu hangen i ffynnu yn cael eu cydnabod ac yn destun gweithredu.

Fodd bynnag, mae llawer o gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, yn wynebu llawer o anghenion a disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd gan eu poblogaeth leol, ac mae'n bosibl y bydd angen cefnogaeth arnynt i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n eu gwasanaethu yn destun ffocws ac ymgysylltu fel dinasyddion gweithredol. Rwy'n annog pob corff cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn galluogi cyrff cyhoeddus a'u partneriaid i gyrraedd safonau rhyngwladol, ochr yn ochr â chefnogi ymrwymiad Cymru i hawliau plant.'



Sophie Howe
Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru

Yn ôl Sophie: ‘Mae Sally a minnau wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd er lles plant yn awr ac i mewn i'r dyfodol a sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus yn gydgysylltiedig. Mae sicrhau ymagwedd seiliedig-ar-hawliau tuag at gynllunio a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus i blant yn cydfynd yn gyfan gwbl â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd yn gosod cyrff cyhoeddus ar y llwybr iawn wrth iddynt gyflawni eu hamcanion llesiant.'

Mae'r canllaw ymarferol hwn a'r offeryn hunanasesu rhyngweithiol, hwylus i'w ddefnyddio, sy'n cyd-fynd ag ef, wedi cael ei greu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried sut gallan nhw gynnwys hawliau plant a phobl ifanc i gyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, amddiffyniad rhag niwed a darparu'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen i gyflawni eu potensial mewn lle canolog yn eu cynllunio a'u darpariaeth. Trwy ddilyn yr egwyddorion a'r camau ymarferol a geir yn y canllaw, bydd sefydliadau'n cymryd camau bras tuag at gyflawni egwyddorion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn arbennig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Nid ydym yn rhagdybio y bydd unrhyw sefydliad yn cychwyn o ddim gyda'r gwaith hwn – dyna pam rydym wedi cynnwys llawer o enghreifftiau o achosion ymarferol gan gyrff cyhoeddus sydd eisoes ar y daith i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith. Nid ydym chwaith yn rhagdybio bod yr holl gamau'n rhai hawdd – ac rydym yn cynnig help a chefnogaeth gan ein timau wrth i chi deithio ar hyd y ffordd hon.


Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn cyflwyno diben cyffredin cyfreithiol-rwymol – y saith nod llesiant – ar gyfer y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus eraill penodedig. Mae'n manylu ar sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol weithio, **a chydweithio i wella llesiant Cymru.**

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod y cyrrff cyhoeddus hynny'n rhoi sylw i'r tymor hir, yn helpu i atal problemau rhag codi neu waethgu, yn gweithredu mewn modd integredig a chydweithredol, ac yn ystyried a chynnwys pobl o bob oed. Mae hyn yn cefnogi ymrwymïadau presennol fel yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb, a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Lluniwyd y canllaw hwn yn benodol i helpu Cyrff Cyhoeddus i roi sylw i'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a sifil sy'n benodol i blant a phobl ifanc. Bydd yn helpu Cyrff Cyhoeddus i fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwaith. Mae'r canllaw'n rhoi sylw i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i nod yw cefnogi cyrrff i fwyafu eu cyfraniad i sicrhau llesiant hirdymor plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r canllaw wedi'i gyfeirio at y 44 o gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, y cyrrff cyhoeddus, trydydd sector a phreifat hynny sy'n ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ac unrhyw gyrff eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant. Mae'r canllaw, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys amrywiaeth o offer ymarferol ac enghreifftiau fydd yn helpu Cyrff Cyhoeddus i ystyried hawliau plant ar draws pob un o'r Nodau Llesiant a Phum Dull o Weithio'r Ddeddf. Fe'i lluniwyd i helpu i fwyafu cyfraniadau i lesiant plant a phobl ifanc, a dylid ei ddarllen fel dilyniant manwl i [Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru.](#)



Mae Y Ffordd Gywir yn darparu fframwaith egwyddorol ac ymarferol a fydd yn cefnogi sefydliadau ledled Cymru i ddangos a gwireddu eu hymrwymiaidau i [Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (CCUHP). Mae'n cyflwyno Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant sy'n cefnogi'r canlynol:

Gwreiddio Hawliau Plant

Sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaeth. Ar dudalen [18] cewch enghraifft o sut mae un awdurdod lleol wedi ymuno â'r gwaith hwn drwy wneud ymrwymiad corfforaethol uniongyrchol i CCUHP, a dylanwad hynny o ganlyniad ar eu prosesau cynllunio a chyflenwi.

Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu

Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Mae tudalen 28 yn darparu astudiaeth achos o sut mae gwasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu wedi cael eu cydlynu i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc wrth iddyn nhw gynyddu neu leihau.

Grymuso Plant

Gwella galluoedd plant fel unigolion i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i fedru manteisio ar hawliau, ac ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u galw i gyfrif. Ar dudalen 33 cewch enghraifft o sut mae plant wedi cael eu cefnogi i ddysgu am eu hawliau yn CCUHP.

Cyfranogiad

Gwrando ar blant a rhoi sylw i'w barn mewn ffordd ystyrlon. Mae tudalen 31 yn cynnwys manylion enghraifft o sut gallai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei ymgorffori i strwythurau BGCau.

Atebolrwydd

Dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a champau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae tudalen 35 yn darparu enghraifft o sut mae plant a phobl ifanc wedi cael eu cefnogi i ymwneud â phrosesau craffu a galw gwasanaethau i gyfrif yn uniongyrchol.

Mae'r canllaw hwn yn gosod Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyfeirir at fframwaith y Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant: Gwreiddio Hawliau Plant, Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu, Grymuso Plant, Cyfranogiad ac Atebolrwydd ar hyd y ddogfen hon.

Mae Comisiynydd Plant Cymru (CPC) a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (CCDC) hefyd wedi datblygu offeryn meincnodi ar-lein www.dyfodoliblant.cymru i gefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i feddwl am hawliau plant ar draws y Pum Dull o Weithio a'r swyddogaethau llywodraethu corfforaethol cyffredin. Yn unol ag ysbryd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r mecanwaith hunanasesu wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â chyrff cyhoeddus yng Nghymru a [Hall Aitken](#).

Mae'n bwysig cydnabod bod y broses hon wedi cael ei datblygu i sbarduno dysgu a gwelliant sefydliadol ar gyfer plant a phobl ifanc, yn hytrach na chydymffurfiaeth sefydliadol. Ei phrif amcan yw gweithio tuag at yr hir dymor trwy gydnabod a dathlu gwaith sydd eisoes yn digwydd a grymuso cyrff cyhoeddus i berchnogi a datblygu ymhellach eu cyfraniad i hawliau plant yng Nghymru. Yn ei hanfod, dylai weithredu fel offeryn diagnostig a helpu i alluogi cyrff cyhoeddus i rannu ymarfer addawol a chynnig gwaelodlin o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth gan Swyddfeydd CPC a CCDC.

Hawliau plant a deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd newydd i gyrff cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Adran 3 o'r Ddeddf yn gofyn bod gyrff cyhoeddus yn cyflawni datblygiad cynaliadwy ac yn mwyafu eu cyfraniad i bob un o'r Nodau Llesiant.

Mae [Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol: Canllaw Craidd \(SPSF1\)](#) yn nodi bod y Ddeddf:

“Yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell trwy sicrhau bod y gyrff cyhoeddus hynny yn rhoi sylw i'r tymor hir, yn helpu i atal problemau rhag codi neu waethgu, yn defnyddio dull gweithredu integredig a chydweithredol, ac yn ystyried a chynnwys pobl o bob oed. Mae hyn yn cefnogi ymrwymïadau sydd eisoes yn bodoli megis yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.”

Mae Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fel ei gilydd, o'r farn bod diogelu hawliau plant yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygu cynaliadwy cadarnhaol, hirdymor a chynhwysol. Mae'r Ddeddf yn cynnal ysbryd CCUHP ac yn rhoi hwb newydd i feithrin cymunedau ffyniannus, cydnerth a chynhwysol. Bydd gweithio tuag at wireddu hawliau plant nawr yn helpu i sicrhau llesiant hirdymor Cymru.

Mae'n bwysig, felly, fod gyrff cyhoeddus yn cydnabod y berthynas rhwng CCUHP a'r Ddeddf. Trwy ddeall y berthynas hon a mwyafu eu cyfraniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru, mae cyfleoedd allweddol yn bodoli i alinio ac integreiddio sut rhoddir dulliau gweithredu ar waith.

Hawliau Plant a'r Nodau Llesiant

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i dyfu i fyny mewn Cymru sy'n eu cefnogi i fod y gorau gallan nhw fod. Mae hynny'n golygu y dylid darparu'r amodau gorau posibl i bob plentyn ffynnu.

Mae Adran 4 o'r Ddeddf yn gofyn bod cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn pennu amcanion llesiant ac yn cymryd camau sy'n mwyafu eu cyfraniadau i bob un o'r saith Nod Llesiant. Mae'n bwysig cydnabod bod hawliau plant yn berthnasol ar draws pob un o'r Nodau Llesiant a dylid defnyddio CCUHP yn ffrâm i gyrff cyhoeddus a BGCau fwyafu eu cyfraniad i lesiant plant a phobl ifanc ar draws pob un o'r Nodau hynny. Gall ystyried hawliau plant yn y cyd-destun yma gefnogi cyrff cyhoeddus a BGCau i ymdrin â llesiant plant mewn modd integredig; i gydnabod a thynnu sylw at rôl bwysig pob corff cyhoeddus ym mywydau plant. Er enghraifft:

- Er ein bod ni'n gwybod y gall gweithgareddau chwaraeon wneud cyfraniad uniongyrchol i nod "Cymru Iachach" trwy hybu iechyd plant a mynediad i weithgareddau hamdden (Erthyglau 6 a 31 o CCUHP yn eu tro), gellir rhoi ystyriaeth hefyd i sut mae chwaraeon yn cyfrannu at nod "Cymru fwy Cydlynus" trwy ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymuno â grwpiau a datblygu cyfeillgarwch ag eraill (Erthygl 15 o CCUHP);

- Gall penderfyniadau a wneir i wella ansawdd aer, hyrwyddo cludiant cyhoeddus a pharthau heb geir wneud cyfraniad uniongyrchol i nod "Cymru Gydnerth" trwy wella iechyd ac amgylchedd plant (Erthyglau 6 a 24 o CCUHP). Gallai penderfyniad o'r fath gyfrannu hefyd at hawliau plant i fyw mewn cymunedau mwy diogel (Cymru fwy Cydlynus), hyrwyddo teithio llesol (Cymru Iachach) a gallai hybu llesiant economaidd trwy wella mynediad i swyddi a thocynnau teithio rhatach (Cymru Lewyrchus).

Wrth roi sylw i'r asesiad llesiant (a data arall perthnasol) mae CPC a CCD yn annog cyrff cyhoeddus a BGCau i roi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc a deall sut gallai eu hamcanion llesiant a'u cynlluniau gyfrannu at wireddu hawliau plant ar draws pob un o'r Nodau Llesiant. Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, mae'r tabl yn [Atodiad 1](#) yn darparu enghraifft o sut gellir mapio hawliau plant ar draws pob un o'r Nodau Llesiant.

Gall penderfyniadau a wneir i wella ansawdd aer, hyrwyddo cludiant cyhoeddus a pharthau heb geir wneud cyfraniad uniongyrchol i nod "Cymru Gydnerth"

Hawliau Plant a'r Pum Dull o Weithio

Yn ogystal â chydabod sut gall hawliau plant fod yn berthnasol ar draws pob un o'r Nodau Llesiant, mae hefyd yn bwysig bod cyrff cyhoeddus a BGCau yn cydnabod sut mae CCUHP yn berthnasol i egwyddor datblygu cynaliadwy, y mae'r Pum Dull o Weithio wedi'u bwriadu i'w cyflawni.

Hirdymor

Pwysigrwydd cydbwysio anghenion tymor byr â'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir yn ogystal

Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill

Cydweithio

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) er mwyn gallu helpu'r corff hwnnw i gyflawni ei amcanion llesiant

Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

Bwriad cymhwyso'r Pum Dull o Weithio yw creu newid sylweddol a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella effeithiolrwydd ein gwasanaethau cyhoeddus, i fod yn broffwydol ac i fod yn arloesol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n dod heb heriau. Mae'n galw am newid diwylliant sefydliadol o ran sut mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn cynllunio, yn cyflawni ac yn gwerthuso ar y cyd.

Mae CPC a CCDC, fel ei gilydd, o'r farn y gall cymhwysu CCUHP helpu cyrff cyhoeddus a BGCau i oresgyn rhai o'r heriau hyn ac yn gallu gweithredu fel catalydd i sbarduno'r gwelliannau angenrheidiol wrth wneud penderfyniadau.

Er enghraifft, gallai rhoi sylw dyledus i hawliau plant greu achos economaidd a chymdeithasol dros flaenoriaethu buddsoddiad hirdymor mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc, nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio a chydweithio ar draws sectorau a chreu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chreu'r datrysiadau ar

gyfer newid. O ganlyniad, anogir cyrff cyhoeddus a BGCau hefyd i adfyfrio ar sut maen nhw'n hyrwyddo CCUHP ar draws y Pum Dull o Weithio ac yn ystyried yn ymarferol pa mor dda yw eu gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol o safbwynt parchu, amddiffyn a gwireddu ymhellach hawliau plant:

Gweithdrefnau llywodraethu	Rhai enghreifftiau o ystyried dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant	Sut gallai hynny edrych yn achos hawliau plant
<p>Cynllunio Corfforaethol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r cynllunio corfforaethol wedi cymryd CCUHP i ystyriaeth? (<i>Gwreiddio</i>) • Pa ymrwymiad a wneir i CCUHP mewn cynlluniau? (<i>Gwreiddio</i>) • Sut mae barn plant a phobl ifanc wedi cael ei cheisio ac wedi derbyn sylw yn y broses gynllunio? (<i>Grymuso, cyfranogiad, atebolrwydd</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Asesiad Llesiant yn darparu dadansoddiad clir o anghenion Llesiant a hawliau plant yn yr ardal • Mae ymrwymiad eglur lefel uchel i hawliau plant mewn Amcanion/Cynlluniau Llesiant • Mae pennu blaenoriaethau a chynlluniau yn rhoi sylw i farn plant a phobl ifanc • Mae cynlluniau wedi cael eu hasesu o ran eu heffaith ar blant • Mae trefniadau clir ar waith i helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddysgu am eu hawliau
<p>Cynllunio Ariannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ydy'r gwariant sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yn eglur yn y datganiad cyllideb? (<i>Atebolrwydd</i>) • Ydy'r dyraniad adnoddau'n ddigonol i sicrhau hawliau plant ar gyfer yr hir dymor? (<i>Atebolrwydd</i>) • Sut mae barn plant a phobl ifanc wedi cael ei cheisio ac wedi derbyn sylw yn y broses o bennu cyllideb? (<i>Grymuso, cyfranogiad, atebolrwydd</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae datganiadau cyllideb i blant yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol • Mae plant a phobl ifanc wedi chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch y gyllideb ac adnoddau • Byddai CPC yn annog bod penderfyniadau cyllideb yn rhoi sylw i hawliau plant trwy ddefnyddio asesiad effaith ar hawliau plant

Gweithdrefnau llywodraethu	Rhai enghreifftiau o ystyried dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant	Sut gallai hynny edrych yn achos hawliau plant
Cynllunio'r Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> • Ydy ein staff yn teimlo'n hyderus ac yn alluog i gymhwyso hawliau plant i'w hymarfer? (<i>Gwreiddio</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae arferion recriwtio yn amddiffyn ac yn hybu hawliau plant • Mae ymwybyddiaeth staff o hawliau plant yn cael ei fonitro'n rheolaidd • Mae staff yn cael mynediad i ystod gynhwysfawr o gyfleoedd datblygu proffesiynol i ddysgu a chymhwyso hawliau plant i'w hymarfer • Mae cefnogaeth sefydliadol wedi cael ei chyflwyno i gryfhau dull gweithredu integredig i hawliau plant
Comisiynu/ Caffael	<ul style="list-style-type: none"> • Ydy'r arferion caffael yn mynd ati'n rhagweithiol i barchu a diogelu hawliau plant? (<i>Gwreiddio</i>) • Pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal mewn gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a'u caffael? (<i>Atebolrwydd</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â dylunio a chomisiynu gwasanaethau • Mae gwasanaethau'n gweithio tuag at holl hawliau plant heb gamwahaniaethu. Wrth weithio ar draws yr ystod oed, mae gwasanaethau'n sicrhau cydbwysedd rhwng argyfwng a chefnogaeth ataliol • Mae cyfraniadau amlwg i hawliau plant yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau dylunio a chontractio gwasanaeth • Mae trefniadau gwybodaeth clir, hygrych ar waith sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i wasanaethau a meddiannu eu hawliau • Mae'r corff comisiynu yn monitro cyfraniad gwasanaethau yn rheolaidd i amddiffyn a chyflawni hawliau plant
Rheoli Asedau	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r asedau ffisegol a sgiliau wedi cael eu hasesu i ganfod a datblygu dulliau gweithredu newydd sy'n mwyafu i ba raddau y gwreiddir hawliau plant? (<i>Gwreiddio</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau partneriaeth yn nodi'n eglur sut bydd gwasanaethau rhwng sefydliadau o fudd i hawliau plant • Mae trefniadau hyfforddi ar waith i gefnogi gwaith partneriaeth • Mae cyfuno cyllidebau/adnoddau wedi cael ei ystyried ac yn cryfhau'r cyfraniad i hawliau plant

Gweithdrefnau llywodraethu	Rhai enghreifftiau o ystyried dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant	Sut gallai hynny edrych yn achos hawliau plant
Rheoli Risg	<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae hawliau plant a'r anghydraddoldebau a brofwyd gan blant a phobl ifanc wedi cael eu nodi? (<i>Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu</i>) • Sut mae'r risgiau a nodwyd i blant a phobl ifanc wedi derbyn sylw a chael eu lliniaru? (<i>Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae asesiadau effaith hawliau plant yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir • Mae hawliau plant yn cael eu cynnwys wrth gynllunio cydraddoldeb yn strategol
Rheoli Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Pa fesurau dylai'r sefydliad eu defnyddio i olrhain y cynnydd a wnaeth o ran sicrhau hawliau plant? (<i>Atebolrwydd</i>) • A yw cynnydd yn cael ei gyfleu'n eglur i blant a phobl ifanc, oedolion a chymunedau? (<i>Grymuso ac Atebolrwydd</i>) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r monitro a'r gwerthuso yn cael eu llywio gan hawliau plant • Mae'r adrodd yn digwydd mewn iaith a fformat hygyrch • Mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â'r trefniadau craffu ac yn cael eu galluogi i alw gwasanaethau i gyfrif • Mae plant a phobl ifanc yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch y cynnydd a wnaed

Mae rhagor o fanylion ynghylch sut gall cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau ac integreiddio hawliau plant yn ymarferol ar draws y Pum Dull o Weithio ar gael yn [Atodiad 2](#).

Bydd gweddill y canllaw hwn yn darparu enghreifftiau ymarferol o sut mae cyrff cyhoeddus eisoes yn cyfrannu at hawliau plant yn y Ffyrdd o Weithio o dan y Ddeddf a'r gweithdrefnau llywodraethu

corfforaethol cyffredin. Bydd yn dilyn y dull gweithredu a amlinellwyd yn [Atodiad 2](#) ac yn cyfeirio at y Ddeddf, y canllawiau statudol, CCUHP a dogfennau eraill perthnasol a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (PHP) yw corff y CU sy'n hysbysu ac yn monitro i ba raddau mae gwledydd yn parchu, yn amddiffyn ac yn cyflawni hawliau plant.

Cymhwyso hawliau plant a'r Pum Dull o Weithio:

Gweithio i'r hirdymor

Aesu

Beth sy'n bwysig i Blant a Phobl Ifanc?

Mae Adran 5(2)(a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pethau canlynol:

“pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, yn enwedig pan allai pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith niweidiol yn yr hirdymor”

Er mwyn gweithredu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, bydd angen i'r prif gyrff cyhoeddus a BGCau weithio tuag at sicrhau llesiant hirdymor cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rhan bwysig o'r swyddogaeth hon fydd canfod ffactorau pwysig sy'n cael effaith ar lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal leol. P'un a yw hynny wrth gynnal yr Aseiad Llesiant neu unrhyw aseiad poblogaeth arall, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i blant a phobl ifanc a dylai unrhyw ddadansoddiad roi lle amlwg i'w llesiant ar draws pob un o'r saith Nod Llesiant.

Mae Adran 37 o'r Ddeddf yn gofyn bod Aseiad Llesiant BGCau yn cynnwys dadansoddiad o anghenion llesiant plant a phobl ifanc yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn rhoi [Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant](#) ar waith, dylai'r data a gesglir gan gyrff cyhoeddus a BGCau gwmpasu plentyndod cyfan (hyd at 18 oed) a hefyd, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, gael ei ddadelfennu i ganfod camwahaniaethu neu gamwahaniaethu posibl yn erbyn plant a phobl ifanc. Dylai hynny fod â ffocws penodol ar y grwpiau mwyaf bregus a difreintiedig o blant a phobl ifanc, sydd ar y cyrion.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r darlun cliraf posibl o lesiant plant a phobl ifanc, gallai cyrff cyhoeddus a BGCau ystyried:

- Beth rydyn ni eisoes yn ei wybod am blant a phobl ifanc a pha wybodaeth sydd gennym ni amdanyn nhw'n barod? Pwy arall sydd â data am lesiant plant a phobl ifanc?
- A oes cydbwysedd rhwng y data meintiol ac ansoddol am blant a phobl ifanc? Beth mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym ni, a sut rydym ni'n rhoi sylw i hynny yn ein dadansoddiad?
- Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthyn ni am lesiant plant a phobl ifanc ar draws pob un o'r saith Nod Llesiant? Beth allai hynny ei ddweud wrthym ni am dueddiadau plentyndod yn y dyfodol? A oes bylchau yn y data? Oes gennym ni ddarpariaeth ddigonol yn ei lle i helpu i wella llesiant plant a phobl ifanc?

Gall defnyddio'r cwestiynau hyn yn fframwaith ar gyfer ymholiadau alluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i ddangos eu hymrwymiad i hawliau plant a darparu fframwaith cefnogol i asesu hawliau a llesiant plant yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd, addysg,

cyflogaeth, datblygiad cymunedol a chynllunio, iechyd a gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a lleihau lefel troseddu. Bydd hyn yn golygu bod modd cyhoeddi data a'i ddadansoddi er mwyn cyfleu'n eglur gyflwr llesiant plant a phobl ifanc yn yr ardal leol.

Astudiaeth achos:

Grymuso plant a chefnogi cyfranogiad

Senedd yr ifanc: ein dyfodol - y Wrecsam a garem

Trodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Wrecsam at Senedd yr Ifanc yn lleol i drafod sut gallen nhw fod yn rhan o'r gwaith (a chefnogi pobl ifanc eraill i ymuno) o ganfod dyheadau allweddol ar gyfer Wrecsam, yn awr ac yn y dyfodol. Penderfynodd Senedd yr Ifanc gyflawni eu prosiect ymchwil eu hunain i gasglu barn pobl ifanc a chyfrannu'r canfyddiadau i Asesiad Llesiant Wrecsam. Cafodd pobl ifanc oedd yn rhan o'r Senedd hyfforddiant ar y Ddeddf, moeseg ymchwil, dulliau ymchwil a chyfathrebu. Cynhaliodd yr ymchwilwyr ifanc waith ymchwil meintiol ac ansoddol gyda phobl ifanc 11-25 oed sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu neu'n derbyn addysg yn Wrecsam ar faterion oedd yn cynnwys addysg, iechyd, cyflogaeth a thrafnidiaeth. Ochr yn ochr â'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb, cafwyd 340 o ymatebion i'r arolwg.

Cafodd canfyddiadau'r ymchwil eu bwydo i'r grŵp BGC, a'u defnyddio i sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei gynrychioli ym mhob rhan o Asesiad Llesiant Wrecsam. Bydd pobl ifanc yn parhau i ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r cynllun Llesiant. Cafodd y canfyddiadau eu hadrodd hefyd i Bwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Drefn Lywodraethol yng Nghyngor Wrecsam, ac o ganlyniad i'r cyflwyniad hwn, mae Cadeiryddion pob pwyllgor craffu yn trafod ffyrdd o gynnwys pobl ifanc yn fwy rheolaidd yn eu gwaith.

**Ochr yn ochr â'r cyfweiliadau
wyneb yn wyneb, cafwyd 340
o ymatebion i'r arolwg.**

Cynllunio Llesiant Gwneud Plant a Phobl Ifanc yn flaenoriaeth

Mae Erthygl 4 o CCUHP yn nodi'r canlynol:

“Ymgymryd â'r holl fesurau deddfwriaethol, gweinyddol ac eraill er gweithredu'r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn presennol. O ran hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, rhaid i Bartïon Gwladol gyflawni'r cyfryw fesurau hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael iddynt, a lle bo angen, oddi mewn i fframwaith cydweithredu rhyngwladol.”

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod cyrff cyhoeddus a BGCau yn datblygu ac yn pennu Amcanion Llesiant. Dylai'r amcanion hyn amlinellu'n glir y camau mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn bwriadu eu cymryd i fwyafu eu cyfraniad i bob un o'r saith Nod Llesiant. Dylai cyrff cyhoeddus gyhoeddi'r amcanion hyn mewn Datganiad Llesiant trwy eu Cynllun Corfforaethol a'r BGCau mewn Cynllun Llesiant.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r set orau bosibl o amcanion Llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc, gallai cyrff cyhoeddus a BGCau ystyried:

- I ba raddau mae plant yn derbyn sylw yn eich amcanion Llesiant? Sut rydych chi wedi rhoi sylw i'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r data ar dueddiadau'r presennol a'r dyfodol wrth ddatblygu eich amcan Llesiant? Oes gan blant le amlwg ar draws eich cyfraniad i bob un o'r Nodau Llesiant?
- Beth mae eich amcanion Llesiant yn ceisio'i gyflawni? Beth yw eu heffaith arfaethedig ar blant? Pa erthyglau yn CCUHP sydd fwyaf perthnasol?

- Beth yw'r risgiau i blant? Sut mae eich amcanion Llesiant yn bwriadu hwyluso tueddiadau cadarnhaol neu liniaru tueddiadau negyddol i blant – gan roi sylw arbennig i'r grwpiau mwyaf bregus/ar y cyrion?
- Sut byddwch chi'n monitro ac yn gwerthuso'r budd i blant wrth i chi gymryd camau tuag at eich amcanion Llesiant? Pa fesurau fydd yn eich helpu i fonitro ac asesu cynnydd?

Mae'r Ddeddf yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i gyflawni eu dyletswyddau o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i fynd i'r afael â thlodi plant, i ddarparu gofal plant a chefnogaeth i deuluoedd ac i wella cyfranogiad a chwarae plant a phobl ifanc yn eu Datganiadau Llesiant a'u Cynlluniau Llesiant. O ganlyniad, mae CPC a CCDC yn credu y dylai'r Datganiadau Llesiant a'r Cynlluniau Llesiant fod wedi'u gwreiddio yn egwyddorion CCUHP. Dylent ffurfio “sylfaen ar gyfer strategaeth gynhwysol, seiliedig ar hawliau, sy'n uno”¹ ar gyfer gwella Llesiant plant a phobl ifanc a chydlynu gwasanaethau ar draws yr ardal.

¹ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (2003) Sylw Cyffredinol Rhif 5: Mesurau Gweithredu Cyffredinol ar Hawliau'r Plentyn (erth. 4, 42 a 44, para. 6) [pdf] Ar gael ar-lein yn: <http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler>. Cyrchwyd ar: 28/02/2017

Bydd defnyddio CCUHP yn fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i gydnabod plant a phobl ifanc fel rhan amrywiol o'r boblogaeth a defnyddio'u data asesu i roi sylw i'r gwahanol elfennau bregus sy'n

effeithio ar blant a phobl ifanc ar hyd eu plentyndod. Bydd yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i amlygu rhai o'r elfennau bregus sy'n benodol i blant a phobl ifanc². Er enghraifft:

Cyfnod oed	Elfennau bregus
Cyn geni	<ul style="list-style-type: none"> • Camfaethiad a iechyd mamol gwael – yn effeithio ar yr ymennydd a datblygiad corfforol • Rhieni mewn sefyllfa fregus
Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed)	<ul style="list-style-type: none"> • Camfaethiad – yn effeithio ar yr ymennydd a datblygiad corfforol • Iechyd – bod yn y sefyllfa fwyaf bregus o ran afiechydon; mynediad at ofal iechyd digonol yn fwyaf hanfodol yn yr oed yma • Symbyliad, gofal cariadus ac ymlyniad annigonol yng nghyswllt y prif ofalwyr – hanfodol ar gyfer datblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol; bod mewn sefyllfa fregus o ran chamdriniaeth • Mynediad annigonol i gyfleoedd dysgu cynnar
Plentyndod Canol (7-11 oed)	<ul style="list-style-type: none"> • Camfaethiad – yn effeithio ar dwf, iechyd a'r gallu i ddysgu • Iechyd – bod mewn sefyllfa fregus o safbwynt afiechydon a mynediad at ofal iechyd digonol • Gofal cariadus annigonol – hanfodol ar gyfer datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol; bod mewn sefyllfa fregus o ran trais a chamdriniaeth • Mynediad annigonol i addysg o ansawdd
Ieuenctid (11-18 oed)	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad annigonol i addysg o ansawdd a gwybodaeth am ymddygiad sy'n cynnwys risg • Cymdeithasol – y gallu i gymdeithasu gyda chyfoedion a datblygu cyfalaf cymdeithasol; risg datblygu clymau cymdeithasol gyda ieuenctid hŷn sy'n eu denu i weithgaredd peryglus neu droseddol; absenoldeb arweiniad cefnogol gan oedolion; bod mewn sefyllfa fregus o ran trais a chamdriniaeth • Iechyd – ymddygiad rhywiol peryglus a chamddefnyddio sylweddau, mynediad i wasanaethau gofal iechyd mamol ac atgenhedlu sy'n effeithio ar fenywod ifanc a'r genhedlaeth nesaf • Risg bod llafur plant yn peryglu iechyd ac addysg • Dod i gysylltiad ag ecsbloetio trwy weithgareddau ar y rhyngwrwyd • Beichiogrwydd cynnar • Pontio i waith – cyfraddau diweithdra uchel ymhlith yr ifanc ac amodau gweithio gwael • Cyfleoedd i godi llais ac ymarfer hawliau dinasyddiaeth a mynediad at gyfiawnder

² EU-UNICEF (2014) Child Rights Toolkit: Integrating Child Rights in Development Cooperation. [pdf] Ar gael ar-lein yn: <https://www.unicef.org/eu/crtoolkit/downloads/Child-Rights-Toolkit-Web-Links.pdf> Cyrchwyd ar: 28/02/2017

Mae CPC a CCDW yn annog cyrff cyhoeddus a BGCau i roi ystyriaeth benodol i hawliau plant, gan roi sylw i'w nodweddion bregus penodol wrth bennu eu Hamcanion Llesiant. Dylai'r Datganiadau Llesiant a'r Cynlluniau Llesiant geisio gwreiddio hawliau plant a gwneud ymrwymiad uniongyrchol, lefel uchel i CCUHP. Dylid amlinellu'r camau a gymerir i weithredu er lles pennaf plant a phobl ifanc a mwyafu eu cyfraniad at wella llesiant plant a phobl ifanc ar draws pob un o'r Nodau Llesiant. Dylai hyn dreiddio i lawr trwy'r sefydliad er mwyn sicrhau bod cynlluniau a systemau gwasanaeth yn adlewyrchu'r ymrwymiad i wireddu hawliau plant.

Mae CPC a CCDW yn cydnabod y gall fod rhaid i gyrff cyhoeddus a BGCau gyflawni nifer o asesiadau effaith i helpu i lywio'r penderfyniadau a wnânt. Wrth wneud hynny, mae cyrff cyhoeddus a BGCau wedi mabwysiadu nifer o wahanol ddulliau gweithredu i gyflawni'r gofynion hynny. Mae rhai wedi parhau i gynnal asesiadau effaith thematig unigol, mae rhai wedi ymgorffori hawliau plant i ofynion asesiadau effaith ar gydraddoldeb, ac mae eraill wedi mabwysiadu dull gweithredu integredig. Mae CPC a CCDW yn annog cyrff cyhoeddus a BGCau yn gryf i roi sylw dyledus i hawliau plant yn eu dull gweithredu. Gall asesiad o effaith ar hawliau plant gefnogi cyrff cyhoeddus a BGCau i ddangos sut maent wedi rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu eu Hamcanion Llesiant a'u Cynlluniau Llesiant. Mae [Cynllun Hawliau Plant](#) Llywodraeth Cymru yn cynnig templed ar gyfer Asesu Effaith ar Hawliau Plant a allai gefnogi cyrff cyhoeddus a BGCau yn hyn o beth.

Astudiaeth achos:

Gwreiddio hawliau plant

Cyngor Sir Penfro – Ymrwymiad corfforaethol i CCUHP

Yn dilyn adolygiad annibynnol o gyfranogiad ac eiriolaeth yn Sir Benfro, datblygwyd strategaeth hawliau a chyfranogiad newydd er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd yn yr adolygiad, sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau, a hefyd er mwyn pennu blaenoriaethau'r awdurdod lleol o safbwynt datblygu cyfranogiad a hawliau, a gwreiddio CCUHP yn ein gwaith.

Roedd y strategaeth yn gysylltiedig â chynllun gweithredu y rheolid ei berfformiad ac mae'n cyflwyno 5 maes blaenoriaeth gwahanol fel a ganlyn:

1. Ymrwymo Sir Benfro i CCUHP trwy [Adduned Hawliau Plant](#);
2. Cryfhau ein cyrff cynrychioliadol;
3. Cefnogi a gwella cynghorau ysgol;
4. Cynyddu ymwybyddiaeth oedolion o hawliau plant;
5. Hybu dinasyddiaeth weithredol plant a phobl ifanc.

Mae'r Cyngor yn adrodd bod y cynllun gweithredu wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, ac mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd er mwyn adnewyddu blaenoriaethau lleol yn unol â'r anghenion a'r blaenoriaethau a nodwyd ar hyn o bryd. Mae grŵp monitro amlasiantaeth yn adolygu'r cynnydd yn ôl y blaenoriaethau.

Astudiaeth achos:

Gwreiddio hawliau plant

Abertawe Bro Morgannwg – Siarter hawliau plant

Mae Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (ABMU) wedi mabwysiadu Siarter Hawliau Plant, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc. Mae'n cyflwyno 10 ymrwymiad trosfwaol i hawliau plant, y mae pob un ohonynt yn adlewyrchu gwahanol erthyglau yn CCUHP. Mae'r siarter wedi cael ei chymeradwyo gan arweinwyr y Bwrdd Iechyd, ac mae i gael ei defnyddio'n ganllaw ar gyfer yr holl staff, cynllunio a gweithredol, er mwyn darparu fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ers cyflwyno'r siarter, mae'r Bwrdd wedi penodi arweinydd hawliau plant sy'n gweithio'n agos gydag uwch-reolwyr i weithredu ei ymrwymiad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau gweithio ar weithdrefnau fydd yn gwireddu hawliau plant, mewn cydweithrediad agos ag Arsyllfa Cymru ar

Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys pecynnau gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff, ac ar offer polisi i fonitro a gwerthuso cynnydd o ran sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu Panel Plant i gynghori'r awdurdod ynghylch materion plant ym maes gofal iechyd.

Bydd cymhwyso'r siarter Hawliau Plant i bob agwedd ar ofal a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a'u grymuso i dderbyn cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant. Bydd y siarter hefyd yn rhoi i bob plentyn a pherson ifanc lais cyfartal o ran hysbysu rhanddeiliaid ynghylch gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i dyfu i fyny'n iach ac yn hapus.

“Bydd angen i ABMU sicrhau bod y siarter yn cael ei rhannu'n eang gydag asiantaethau partner i'w cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy trwy ddefnyddio egwyddor cyd-gynhyrchu. Bydd hynny hefyd yn ei dro yn helpu i gyflawni nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol” Cadeirydd ABMU

Cynllunio'r Gweithlu

Ni all yr ymrwymiadau a wneir i blant a phobl ifanc gan gyrff cyhoeddus a BGCau yn eu Datganiadau Llesiant a'u Cynlluniau Llesiant sefyll yn ynysig, a dylid eu cefnogi gan weithlu medrus sydd â digon o offer ac adnoddau.

Bydd angen, felly, i gyrff cyhoeddus a BGCau sicrhau bod adnoddau dynol a thechnegol yn cael eu cydlynu mewn modd digon cynhwysol i sicrhau anghenion llesiant tymor hir plant a phobl ifanc yn yr ardal leol.

Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, dylai gyrff cyhoeddus a BGCau o leiaf roi sylw i'r asesiadau digonolrwydd diweddaraf (e.e. asesiadau digonolrwydd ar gyfer chwarae, gofal plant a darpariaeth feithrin) y ceir eu manylion o dan Adran 38 o'r Ddeddf, a rhoi ystyriaeth i unrhyw dueddiadau perthnasol yn y dyfodol a nodwyd yn ystod y broses asesu (t.19).

Dylai prosesau sefydliadol sy'n ymwneud â recriwtio, sefydlu, cadw a datblygu staff gefnogi'r rhwymedigaethau a nodwyd yn CCUHP a galluogi'r holl staff i ddysgu am hawliau plant, eu hyrwyddo a'u cymhwyso yn eu hymarfer. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion Gwreiddio Hawliau Plant a Chyfranogiad a amlinellwyd yn y Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant. Dylid cefnogi staff ac arweinwyr i gydnabod a deall eu cyfraniad i bob un o'r saith Nod Llesiant trwy lens CCUHP. Gallai fod angen i gyrff cyhoeddus a BGCau ystyried nodi ble mae'r sgiliau, yr wybodaeth a'r galluoedd o safbwynt hawliau plant yn gorwedd o fewn y sefydliad, a rhoi blaenoriaeth i dargedu adnoddau lledaenu.

Astudiaeth achos:

Gwreiddio hawliau plant

Cyngor Abertawe - Hawliau plant a chynllunio'r gweithlu

Mae Cyngor Abertawe wedi cydnabod pwysigrwydd gwreiddio hawliau plant wrth gynllunio datblygiad y gweithlu. I gefnogi eu hymrwymiad i hawliau plant, mae CCUHP wedi cael ei integreiddio i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn 2016, roedd yn ofynnol bod pob maes gwasanaeth yn pennu tri amcan CCUHP oedd yn canolbwyntio ar gefnogi hyfforddiant hawliau plant, gan hybu ymwybyddiaeth o CCUHP a chefnogi cydymffurfio â hawliau plant yn y prosesau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. I gefnogi'r gwaith hwn, mae CCUHP

wedi cael ei ymgorffori i raglenni hyfforddi staff gorfodol ynghych diogelu corfforaethol, sefydlu corfforaethol a gwasanaethau cwsmeriaid a gwaith cydraddoldeb.

"Mae ein protocol Cydraddoldeb ac Ymgysylltu yn parhau'n llwyddiannus o ran sicrhau bod materion cydraddoldeb a hawliau plant yn cael eu hystyried ac yn derbyn sylw fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau." Swyddog yng Nghyngor Abertawe

Cynllunio Ariannol

Mae Erthygl 4 o CCUHP yn nodi y dylai awdurdodau cyhoeddus wneud y canlynol:

“Ymgymryd â’r holl fesurau deddfwriaethol, gweinyddol ac eraill priodol ar gyfer gweithredu’r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn presennol. O ran hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, mae’n rhaid i Bartïon Gwladol ymgymryd â’r cyfryw fesurau hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael iddynt, a lle bo angen, oddi mewn i fframwaith cydweithredu rhyngwladol.”

Mae Adran 5 o’r Ddeddf yn gofyn bod cyrff cyhoeddus a BGCau yn rhoi sylw i’r ffordd orau y gallant ddefnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Rhan bwysig o’r dull gweithredu hwn fydd bod cyrff cyhoeddus a BGCau yn rhoi sylw i CCUHP ac yn blaenoriaethu buddsoddiad a gynhelir mewn plant a phobl ifanc.

Mae cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc y mae tlodi, camdriniaeth, camwahaniaethu neu fathau eraill o anfantais yn effeithio arnynt yn dioddef niwed andwyol os na chânt y gofal neu’r gefnogaeth gywir³. Gall hyn gael effaith sylweddol, hirhoedlog, sydd weithiau’n amhosibl ei gwyrddio ar lesiant economaidd, iechyd neu gymdeithasol plant a phobl ifanc yn y dyfodol. Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu bod rhai plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol lluosog yn ystod eu plentyndod 4 gwaith yn fwy tebygol o yfed llawer o alcohol, 6 gwaith yn fwy tebygol o smygu ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu yn ystod eu hoes⁴.

Mae plentyndod yn ffenestr ar gyfer cyfle allweddol a bydd yr ymyriadau neu’r penderfyniadau polisi a wnawn heddiw yn pennu a fydd plant a phobl ifanc Cymru yn gallu cyflawni eu potensial neu wynebu tyfu i fyny yng Nghymru

gyda rhagolygon economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy’n gwaethygu. O’r herwydd, bydd angen i gyrff cyhoeddus a BGCau ystyried y ffordd orau o flaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal wrth ddyrannu eu harian a’u hadnoddau. Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau gydnabod plant a phobl ifanc fel asedau, fel gwarcheidwaid ac fel arweinwyr dyfodol economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Byddant yn etifeddu Cymru yfory, ond bydd llwyddiant yr etifeddiaeth honno yn dibynnu ar y buddsoddiad tymor hir rydym ni’n ei ymrwymo i hawliau plant heddiw. Mae’r [Sefydliad Ymyrraeth Gynnar](#) yn cynnig offer, adnoddau a thystiolaeth i helpu cyrff cyhoeddus a BGCau i ddatblygu eu dull gweithredu.

Mae’r Ddeddf yn cynnal ysbryd CCUHP ac yn rhoi hwb o’r newydd i feithrin cymunedau iach, llewyrchus, cydnerth a chynhwysol. Mae felly’n gwneud synnwyr cadarn yn economaidd ac yn gymdeithasol i gyrff cyhoeddus a BGCau roi sylw i hawliau plant wrth gynllunio’u materion ariannol a dyrannu cyllidebau. Mae pob un o’r egwyddorion amlinellir yn Y Ffordd Gywir yn arbennig o berthnasol yma. Mae CPC a CCDC yn annog cyrff cyhoeddus a BGCau yn gryf i ddefnyddio CCUHP a’i Egwyddorion Tywys yn fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ariannol:

³ UNICEF (2012) UNICEF Social and Economic Policy Working Paper: Right in Principle, Right in Practice. [pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.unicef.org/socialpolicy/files/Investing_in_Children.pdf Cyrchwyd ar: 28/02/2017

⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh population. [pdf] Ar gael ar-lein yn: <http://www.cph.org.uk/wp-content/uploads/2016/01/ACE-Report-FINAL-E.pdf> Cyrchwyd ar: 28/02/2017

<p>Erthygl 2: Peidio â Chamwahanïaethu</p>	<ul style="list-style-type: none">• I ba raddau mae plant a phobl ifanc i'w gweld yn ein cyllidebau?• Ydym ni wedi ystyried a rhoi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc wrth ddatblygu ein cyllideb?• Ydy ein prosesau ariannol yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r grwpiau mwyaf bregus a difreintiedig o blant a phobl ifanc, a'r rhai sy'n byw ar y cyrion?
<p>Erthygl 3: Lles Pennaf Plant</p>	<ul style="list-style-type: none">• Faint o'n hadnoddau ariannol rydym ni wedi'u dyrannu a'u gwario'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc?• Ydyn ni'n dyrannu ac yn gwario'r swm cywir ar blant a phobl ifanc o ran adnoddau ariannol?• Ydyn ni wedi nodi'r manteision a'r risgiau i blant a phobl ifanc? Lle nodwyd bod risgiau, sut bydd y rheiny'n cael eu lliniaru?
<p>Erthygl 4: Goroesi a Datblygiad</p>	<ul style="list-style-type: none">• Ydy ein cyllideb yn ddigonol i fwyafu ein cyfraniad i wella llesiant plant a phobl ifanc ar draws pob un o'r saith Nod Llesiant?• Sut byddwn ni'n monitro dyraniad, gwariant a chanlyniadau plant a phobl ifanc?
<p>Erthygl 5: Hawl i gael eich Clywed</p>	<ul style="list-style-type: none">• Sut rydym ni'n rhoi sylw i farn plant a phobl ifanc wrth bennu ein cyllidebau?• Sut rydym ni'n rhoi sylw i farn plant a phobl ifanc wrth gomisiynu/pwrcasu gwasanaethau sylweddol?

Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau weithio tuag at fedru dangos sut mae pob ymdrech wedi cael ei wneud “i grynhoi, dyrannu a gwario adnoddau’r gyllideb er mwyn cyflawni hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn.” (t.9)⁵ Gallai Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant fod yn offeryn defnyddiol i helpu cyrff cyhoeddus a BGCau

i gyfleu hyn a sicrhau darlenniad priodol ar draws y Datganiadau neu’r Cynlluniau Llesiant a’r penderfyniadau ariannol a wnânt. Er enghraifft, gallai Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant helpu i amlygu cyfraniad Amcan Llesiant ar draws nifer o Nodau Llesiant:

Amcan Llesiant	Rhaglen seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth	
Effaith Gadarnhaol Bosibl ar CCUHP	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 27: Safon dda o fyw – Gallai gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i oedolion a chyfrannu at dwf economaidd. Gwelliannau o ran lleihau effaith tlodi a bywoliaeth aelwydydd. • Erthygl 6: Goroesi a Datblygiad – Gallai wella mynediad i gyfleusterau iechyd a manteision tymor hir a nodwyd o safbwynt gwelliannau i ansawdd aer. • Erthygl 28: Mynediad i Addysg, Erthygl 31: Gorffwys, Hamdden, Diwylliannol, Chwaraeon a Chwarae – Gallai hwyluso a chynyddu mynediad plant a phobl ifanc i’r ysgol a chyfleusterau hamdden. 	
Effaith Negyddol Bosibl ar CCUHP	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 6: Goroesi a Datblygiad – Gallai plant a phobl ifanc wynebu risg uwch o ddamweiniau. Peryglon iechyd tymor byr i dymor canolig sy’n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael. • Erthygl 18: Cyfrifoldebau rhieni a chymorth gan y wladwriaeth – Gallai gynyddu’r galw am ofal plant priodol. 	<p>Mesurau Lliniaru</p> <p>Yn y tymor byr, defnyddio’r asesiad digonolrwydd gofal plant i ganfod capasiti ac ailgyfeirio adnoddau i’r manau yr effeithir arnynt. Cefnogi cydlyniant rhwng darpariaeth feithrin a chanfod cyllid ar gyfer buddsoddiad tymor hwy.</p>
Cyfraniad at y Nodau Llesiant:	Example National Indicators:	
<ul style="list-style-type: none"> • Cymru Lewyrchus • Cymru Gydnerth • Cymru Iachach • Cymru Gydlynus 	<ul style="list-style-type: none"> • Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) yn yr awyr. • Incwm Aelwyd Gwariadwy Gros y pen. • Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth. • Canran y bobl sy’n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/gael mynediad i’r cyfleusterau a’r gwasanaethau mae arnynt eu hangen. 	

⁵ Pwyllgor y CU ar Hawliau’r Plentyn (2016) Sylw Cyffredinol Rhif 19: Cyllidebu Cyhoeddus er mwyn gwireddu hawliau plant (erthygl 4) Ar gael ar-lein yn: <http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler>. Cyrchwyd ar: 28/02/2017

Gall meddu ar Ddatganiad Cyllideb Plant a Phobl Ifanc hefyd alluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i hwyluso ymwneud plant a phobl ifanc yn fwy â chynllunio, gweithredu a chraffu ar benderfyniadau ariannol. Yn unol ag Erthygl 12 o CCUHP, bydd angen i gyrff cyhoeddus a BGCau warantu cyfranogiad plant a phobl ifanc ar hyd cylch y gyllideb a dangos sut maen nhw wedi rhoi ystyriaeth i'r rhain wrth wneud penderfyniadau. Gallai hynny

gynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r cyfnod pennu cyllideb, cefnogi plant a phobl ifanc i ymwneud â chyflwyno'r gyllideb (er enghraifft, ymwneud â comisiynu a chaffael gwasanaethau) neu gefnogi plant a phobl ifanc i ymwneud â mecanweithiau craffu. Dylai'r holl raglenni cyllideb cyfranogol gael eu llywio gan y [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc](#) a'u cynnal.

Astudiaeth achos:

Grymuso, cyfranogiad ac atebolrwydd

Caerdydd (Comisiynwyr ifanc)

Ceir enghraifft hanesyddol o rymuso plant ar ffurf prosiect partneriaeth rhwng Gwasanaeth Ieuencid Caerdydd a Barnardos Cymru. Cefnogwyd 30 o blant a phobl ifanc, rhwng 8 a 21 oed, i ddod yn Gomisiynwyr Ifanc â hyfforddiant AQA. Bu'r bobl ifanc yn ymwneud â chomisiynu prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, ac yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch sut roedd peth o'r £25 miliwn o wasanaethau (Ymgysylltiad Ieuencid, Iechyd Meddwl, Ffocws Anabledd, Blynyddoedd Cynnar, Ffyrdd Iach o Fyw a Chyflogaeth Gynaliadwy) yn cael ei wario. I gefnogi eu hymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, bu'r plant a'r bobl ifanc yn gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain ar wahanol fodolau comisiynu, yn derbyn hyfforddiant, ac yn helpu i ddatblygu'r meini prawf tendro.

Adroddodd yr awdurdod fod model y Comisiynwyr Ifanc yn helpu i ddarparu proses well o wneud penderfyniadau, gan arbed arian ar wasanaethau

diangen a gwella atebolrwydd lleol. Mi fydd y bobl ifanc yn parhau i weithio wedi'r broses o gomisiynu. Byddant wrthi'n arolgyu'r gwasanaethau yn erbyn Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol Cymru i Blant a Phobl Ifanc.

“Gwnaeth y comisiynwyr ifanc gyfraniad neilltuol trwy eu cyfranogiad rhugl a hyderus yn y broses, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu eu hanghenion a'u dewisiadau yn briodol. Cafwyd enghraifft o hynny yn y sesiwn eglurhad holi ac ateb y daeth y plant a'r bobl ifanc iddi gyda'u cymheiriaid proffesiynol o blith yr oedolion. Bu eu hagwedd hynod drylwyr wrth werthuso'r hyn a gyflwynwyd yn eu helpu i ofyn cwestiynau treiddgar a heriol a galw'r darparwyr i gyfrif.” (Rheolwr Gweithredol Corfforaethol ar gyfer Cymunedau a Phartneriaethau)

Astudiaeth achos:

Grymuso a Chyfranogiad

Abertawe – Sgwrs flynyddol fawr am y gyllideb

Fel rhan o'u hymrwymiad parhaus i roi sylw dyledus i CCUHP ers 2013, mae Cyngor Abertawe wedi cynnal 'Sgwrs Flynyddol Fawr am y Gyllideb' gyda phlant a phobl ifanc i roi sylw i'w barn yn y broses o bennu'r gyllideb. Mae dros 350 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan hyd yma, ac yn ystod y 4 blynedd diwethaf, maen nhw wedi bod yn rhan o amrywiaeth o benderfyniadau ariannol ynghylch gwasanaethau addysg, gwasanaethau chwarae, gwasanaethau gofal i bobl hŷn ac oedolion anabl, gwasanaethau diwylliannol, gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth a gwariant yn y dyfodol.

Ym mhob digwyddiad, hwyluswyd gweithdai i gefnogi plant, pobl ifanc, swyddogion ac aelodau Cabinet i gydweithio i archwilio cynigion y gyllideb. Adroddir pob cyfraniad yn ôl i'r Cyngor ar gyfer ystyriaeth lawn, a rhoddwyd adborth i'r cyfranogwyr ynghylch sut roedd eu barn wedi cael ei chymryd i ystyriaeth.

“Roedd y sesiynau'n gyfle gwerthfawr i'r holl bartïon ystyried safbwyntiau ei gilydd a thrafod y ffyrdd gorau ymlaen neu'r rhai oedd yn cael eu ffafrio. Mae pobl ifanc wedi gallu gweithio ar y cyd ag oedolion i wrdroi cynigion megis cau clybiau ieuenctid a chodi pris prydau ysgol”

Swyddog, Cyngor Abertawe

Hawliau plant a'r Pum Dull o Weithio

Ymyrraeth gynnar ac atal

Dylai trefniadau partneriaeth bwysleisio pwysigrwydd cydweithio a mwyafu pob ymdrech bosibl i sicrhau bod llwybrau'r ddarpariaeth yn gwarantu pontio di-fwlch wrth i anghenion llesiant plant gynyddu neu leihau.

Astudiaeth achos:

Gwreiddio hawliau plant a chydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu

Ceredigion - continwmm cymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd

Yn 2015, cyflwynodd Ceredigion [Ganllaw newydd y Tîm o Gwmpas y Teulu](#) ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar sail fframwaith asesu Plant a Theuluoedd yr Adran Iechyd, h.y. Datblygiad y Plentyn/Perthnasoedd Teuluol a Chymdeithasol/Cymuned. Y bwriad wrth ddatblygu'r model continwmm oedd cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i ystyried agweddau ar eu

llesiant eu hunain yn hytrach na dibynnu ar weithiwr i wneud hynny ar eu rhan. Mapiwyd pob gwasanaeth cymorth (cyffredinol ac wedi'i dargedu) yn erbyn y continwmm ac fe'u cydlynwyd mewn ymateb i'r sgôr llesiant a nodwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth ei hun. Mae'r model wedi golygu bod modd cydlynu gwasanaethau'n fwy effeithiol mewn ymateb i anghenion sy'n cynyddu ac yn lleihau.

Hawliau plant a'r Pum Dull o Weithio

Cynnwys plant a phobl ifanc

Gwranddo ar blant a phobl ifanc a rhoi sylw i'w barn

Mae Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol 1 (Canllawiau Craidd) yn cyflwyno disgwyliadau clir ar gyfer cyrff cyhoeddus a BGCau, er mwyn sicrhau bod:

“Cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol yn ganolog i wella llesiant yn awr ac yn y dyfodol”.

Erthygl 12

1. Rhaid i Bartion Gwladol sicrhau i'r plentyn sy'n alluog i lunio'i f/barn ei hun yr hawl i fynegi'r farn honno yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, ac y rhoddir pwys dyledus ar farn y plentyn, yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn.
2. I'r diben hwn, rhaid i'r plentyn yn arbennig gael cyfle i gael ei g/chlywed mewn unrhyw achos barnwrol a gweinyddol sy'n effeithio ar y plentyn, naill ai'n uniongyrchol, neu trwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n unol â rheolau gweithdrefnol deddf gwlad.

Mae'r Ddeddf yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac i hwyluso cyfranogiad ac ymwneud plant a phobl ifanc â'r broses o wneud penderfyniadau. Mae cwmpas y ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach nag ymwneud â'r cynllun llesiant lleol. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar

Hawliau Plant yn cydnabod pwysigrwydd grymuso plant a phobl ifanc a'u cefnogi i sicrhau bod eu barn yn ganolog i bolisi ac ymarfer pob partner lleol.

Mae CPC a CCDC yn disgwyl y bydd pob corff cyhoeddus a BGCau yn mabwysiadu [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc](#)⁸ ac yn sicrhau'r strwythurau, y systemau a'r adnoddau angenrheidiol i wreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ystrolon ar draws y sefydliad, a galluogi cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl i ymwneud â phob agwedd ar gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddylanwadu ar strwythurau arweinyddiaeth ac yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses o wneud penderfyniadau. O safbwynt llywodraeth leol, mae disgwyl i gyrff cyhoeddus sefydlu Cyngor/Fforwm Ieuenctid Sirol a sicrhau bod hynny'n derbyn cefnogaeth ddigonol ac yn cael ei gysylltu â strwythurau democrataidd lleol. Anogir yr holl gyrff cyhoeddus a BGCau eraill i ystyried sut mae galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu'n strategol ar waith eich sefydliad eich hun, ac mae hynny'n cynnal y gwaith o sefydlu Cyngor/Fforwm Ieuenctid Sirol.

⁸ Cymru Ifanc (2016) Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. [pdf] Ar gael ar-lein yn: http://www.youngwales.wales/images/ParticipationStandards_Poster_9.pdf Cyrchwyd ar: 07/03/2017

I egluro'r sefyllfa, nid sefydlu Cyngor/Fforwm Ieuenctid Sirol ddylai fod yr unig fecanwaith sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Anogir cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cynifer o gyfleoedd â phosibl i fod yn rhan o ganfod yr heriau a chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o wella llesiant yn lleol. Dylid integreiddio'r cyfleoedd hynny i wasanaethau beunyddiol yn ogystal â strwythurau cyfranogiad penodol megis fforymau i blant, fforymau i bobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, sy'n agored i niwed neu sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol. Mae gan y fforymau a'r grwpiau hyn rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i gael

mynediad i'w hawliau fel y nodir yn CCUHP. Yn unol â Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant o Wreiddio Hawliau Plant a Chyfranogiad, anogir cyrff cyhoeddus a BGCau i ymdrin â hyn mewn modd arloesol, i gydnabod sut mae gwahanol raglenni cyfranogiad yn cynnal ei gilydd (er enghraifft, sut mae cynghorau ysgol a/neu raglenni archwilio ieuenctid yn cysylltu â'r Cyngor/Fforwm Ieuenctid Sirol) a sicrhau bod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn hidlo i lawr trwy ddiwylliant y sefydliad. Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau gyhoeddi'r trefniadau hyn yn eglur, naill ai mewn [Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc](#)⁹, trwy eu Cynllun Corfforaethol neu yng Nghylch Gorchwyl y BGC.

Astudiaeth achos:

Cynnwys plant a phobl ifanc

Caerffili – Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 2013-16

Enghraifft hanesyddol o sut datblygodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili Gynllun Gweithredu Cyfranogiad Lleol (CGCLI) ar gyfer 2013-2016, sef dogfen amlasiantaeth oedd yn nodi sut roedd yn bwriadu hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau, a sut bydden nhw'n cydweithio i gyflawni nifer o amcanion

allweddol. Cafodd y Cynllun ei integreiddio'n llawn i'r trefniadau SIP blaenorol, ac i ofynion Atodiad B yn Cydamcanu, Cydymdrechu. Mae gwaith bellach wedi cychwyn i adolygu'r Cynllun Gweithredu a chanfod sut gall y trefniadau BGC barhau i gefnogi a chynnwys plant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol a'u partneriaid.

⁹. Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru (2007) Blast Off Guides to increasing participation of children and young people: Participation Strategies. [pdf] Ar gael ar-lein yn: http://www.youngwales.wales/images/STC_E_blast_off_guide_3.pdf Cyrchwyd ar: 07/03/2017

Astudiaeth achos:

Cynnwys plant a phobl ifanc

Chwaraeon Cymru – Rhaglen Llysgenhadon Ifanc

Cyflwynwyd y rhaglen Llysgenhadon Ifanc yng Nghymru yn 2009, o dan yr egwyddor y byddai pobl ifanc yn sbarduno cyfleoedd, ymgysylltiad a newid i bobl ifanc eraill.

Mae'r rhaglen ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau, ac yn fwy diweddar prifysgolion, ac mae'n cynnig llwybr dilyniant sy'n golygu bod modd i bobl ifanc o bob cefndir symud i fyny o'r lefel Efydd yn yr ysgol gynradd, i'r lefel Arian yn yr ysgol uwchradd, ac yna'r Aur a'r Platinwm ar ôl cael rhagor o brofiad. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnig y rhaglen, sy'n gallu cael ei theilwra mewn ymateb i anghenion lleol.

Cyfrifoldeb y Llysgenhadon Ifanc yw cynyddu ymwybyddiaeth a chyfleoedd i wella iechyd, llesiant a lefelau gweithgaredd corfforol pobl ifanc eraill, ochr yn ochr â datblygu eu hunain i fod y gorau gallan nhw fod trwy ddysgu sgiliau arwain gwerthfawr megis cyfathrebu, dylanwadu a gwaith tîm, sy'n hanfodol i'w cefnogi i ddod yn bobl ifanc hyderus, cydnerth a chyflogadwy.

Mae Chwaraeon Cymru, yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuentid a'n partneriaid yn ymgysylltu'n rheolaidd â Llysgenhadon Ifanc i gynorthwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau o safbwynt person ifanc. Mae pŵer llais y person ifanc wedi ysbrydoli mwy o gyrff chwaraeon i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddod yn llunwyr penderfyniadau trwy ffurfio cyngorau ysgol, paneli ieuentid a dod yn aelodau o'r bwrdd.

Ar ben hynny, gallai cyrff cyhoeddus a BGCau ystyried hefyd pa mor effeithiol yw eu sefydliad wrth dderbyn ac ymateb i gwynion a wneir gan blant a phobl ifanc. Gall cwynion sbarduno newidiadau mewn sefydliadau yn aml, ond gall y prosesau fod yn anodd neu'n ddryslyd i gael hyd i ffordd drwyddynt. Bydd CPC a CCDC yn cael eu

calonogi o weld cyrff cyhoeddus a BGCau yn gwneud ymdrechion i ddatblygu systemau a phrosesau cwynion sy'n hwylus i blant eu defnyddio¹⁰. Gallwch gyfeirio at ddogfen [Datgan Pryderon: Canllaw Ymarfer](#) i gael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau cwynion

¹⁰. Comisiynydd Plant Cymru (2004) Datgan Pryderon: Canllawiau Ymarfer. [pdf] Ar gael ar-lein yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Complaints-Practice-Guide.pdf> Cyrchwyd ar: 07/03/2017

Dweud wrth blant a phobl ifanc am eu hawliau a darparu gwybodaeth briodol

Erthygl 42

Bod Partion Gwladol yn ymrwmo i sicrhau bod egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn yn hysbys yn eang, trwy ddulliau priodol a gweithredol, ymhlith oedolion a phlant fel ei gilydd.

Dylai plant a phobl ifanc fedru dysgu, cyrchu a hawlio'r pethau a amlinellir yn CCUHP. Mae hyn yn cynnwys hawl plant i gael clywed eu lleisiau a chael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae disgwyl i awdurdodau lleol rymuso plant a chwarae

rhan arweiniol yn y gwaith o gefnogi cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl i gael mynediad i gyfleoedd dysgu seiliedig ar hawliau. Gallai hyn gynnwys cynnal gweithdai, ymgyrchoedd cyfoedion neu raglenni addysg.

Astudiaeth achos:

Grymuso plant

Rhondda Cynon Taf: Ysgolion sy'n parchu hawliau

Yn 2015 cynhaliodd Rhondda Cynon Taf (RhCT) ymgynghoriad graddfa fawr gyda phlant a phobl ifanc ar draws y sir. Bu dros 5000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan. Dangosodd canlyniadau'r arolwg mai 3% yn unig o'r bobl ifanc yn RhCT oedd yn gwybod am CCUHP. Ym mis Mehefin 2016, gwnaeth RhCT ymrwymiad clir i gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth plant am CCUHP. Dan arweiniad y Tîm Ymgysylltiad a Chyfranogiad leuenctid, ariannodd y Gwasanaethau leuenctid raglen UNICEF ar gyfer pob un o'u 21 ysgol uwchradd, gan gynnwys 4 ysgol arbennig, fel eu bod yn cwblhau'r Dyfarniad Parchu Hawliau (RRSA).

Menter gan UNICEF yw RRSA sy'n cefnogi ysgolion i wreiddio hawliau plant yn strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol, ei chwricwlwm, ei hethos a'i gwerthoedd, a'i phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae 2 aelod o staff o bob ysgol wedi derbyn 3 diwrnod llawn o hyfforddiant ar hawliau plant a diwrnod o gefnogaeth arbenigol gan UNICEF. Ym mis Mawrth 2017, cafodd bron 100 aelod o staff o'r Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad leuenctid ehangach hyfforddiant yn ogystal. Mae hynny wedi golygu bod staff sy'n gweithio mewn ysgolion ac yn y gymuned yn awr yn teimlo'n gymwys ac yn hyderus wrth drafod ac addysgu plant a phobl ifanc ynghylch eu hawliau.

Erthygl 13

Rhaid i'r plentyn gael hawl i ryddid mynegiant; rhaid i'r hawl honno gynnwys rhyddid i geisio, derbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau o bob math, heb roi sylw i ffiniau, boed hynny ar lafar, yn ysgrifenedig neu mewn print, ar ffurf celf, neu trwy unrhyw gyfryngau eraill o ddewis y plentyn.

Mae cyhoeddi a lledaenu gwybodaeth briodol ynghylch eu trefniadau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yn gam pwysig tuag at rymuso plant a bydd angen i gyrff cyhoeddus a BGCau gymryd camau i gefnogi ymwneud plant a phobl ifanc yn ystyrlon. Fel y nodwyd eisoes, gallai gyrff cyhoeddus a BGCau gyflwyno'r trefniadau hyn mewn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, trwy eu Cynllun Corfforaethol, neu yng Nghylch Gorchwyl BGC. Mae [Atodiad B SPSF3](#) yn gofyn bod

yr holl wybodaeth sydd wedi'i bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc yn gywir, yn glir, wedi'i diweddarau ac yn hawdd ei deall. Dylai gynnal Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc trwy ateb cwestiynau plant a phobl ifanc a thrwy gael ei chyhoeddi mewn fformat a iaith sy'n briodol ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc. Gallai hynny gynnwys llythyrau newyddion, gwefannau gwybodaeth ieuenctid a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

**Mae Atodiad B SPSF3 yn gofyn
bod yr holl wybodaeth sydd
wedi'i bwriadu ar gyfer plant a
phobl ifanc yn gywir, yn glir,
wedi'i diweddarau ac yn hawdd ei deall.**

Bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw gyda phlant a phobl ifanc

Yn ogystal â chefnogi plant a phobl ifanc i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, dylai cyrff cyhoeddus a BGCau ystyried hefyd pa mor atebol y maent i blant a phobl ifanc. Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau gefnogi plant a phobl ifanc i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o fonitro'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'u hawliau a'u llesiant.

O ddydd i ddydd, dylai cyrff cyhoeddus a BGCau gefnogi plant a phobl ifanc i ymwneud â gwerthuso effeithiolrwydd cyflwyno a defnyddio'r wybodaeth honno i yrru gwelliannau gwasanaeth. O bersbectif mwy strategol, anogir cyrff cyhoeddus a BGCau i

sefydlu strwythurau arweinyddiaeth sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o brosesau llywodraethu a chraffu ar gynnydd. Mae gwybodaeth ac adborth sy'n hwylus i blant yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Nid oes rhaid i hyn fod ar ffurf adroddiadau a dogfennau hirfaith. Anogir cyrff cyhoeddus a BGCau i feddwl yn arloesol am sut maent yn cyfleu gwybodaeth ac yn hwyluso'r trefniant hwn. Er enghraifft, gellid ystyried cefnogi cynrychiolaeth o Gyngor/Fforwm Ieuentid y Sir ar baneli craffu lleol neu â gofal am raglenni archwilio ieuentid neu hyn yn oed sefydlu pwyllgorau craffu sy'n cynnwys neb ond plant a phobl ifanc.

Astudiaeth achos:

Bod yn atebol i blant

Pwyllgor hawliau plant Sir Benfro

Sefydlodd Cyngor Sir Penfro broses adrodd 'yn null y CU', gyda chorff cynrychioliadol o blant a phobl ifanc yn chwarae rôl Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Gwerthusodd y bobl ifanc hunanwerthusiad Estyn yr awdurdod lleol yn erbyn safonau CCUHP. Yna trefnwyd gwrandawriad cyhoeddus gyda Chyfarwyddwr Addysg, Pennaeth Perfformiad a Chymuned ac Aelod Cabinet Addysg a Diogelu'r Awdurdod. Gofynnodd y bobl ifanc gwestiynau i'r uwch-reolwyr hyn a'r aelod etholedig o flaen

cynulleidfa o 50 o gynrychiolwyr. Ar ôl y gwrandawriad cyhoeddus daeth y bobl ifanc at ei gilydd i lunio fersiwn derfynol eu hadroddiad. Cysylltwyd pob un o'u Sylwadau Terfynol ag erthyglau perthnasol yn CCUHP, a llunio 30 o argymhellion i'r awdurdod lleol eu cyflawni. Mae eu hargymhellion wedi bod yn gatalydd ar gyfer llawer o newidiadau yng Ngwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno.

Hawliau plant a'r Pum Dull o Weithio Integreiddio

Alinio

Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn gofyn bod corff cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- (b) yr angen am ddefnyddio dull gweithredu integredig, drwy ystyried—**
(i) sut gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant;
(ii) sut mae amcanion llesiant y corff yn effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig lle gallai'r camau a gymerwyd gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan, ond amharu ar y gwaith o gyflawni un arall.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod cyrff cyhoeddus a BGCau yn mynd ati mewn modd integredig wrth gynllunio a gweithio tuag at eu Datganiadau a'u Cynlluniau Llesiant. Mae hynny'n golygu y dylai cyrff cyhoeddus a BGCau edrych y tu hwnt i'w prif gyfrifoldeb a sicrhau bod eu camau gweithredu'n cydweddu ag amcanion llesiant adrannau ac asiantaethau eraill, yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn.

Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau cysondeb ac aliniad rhwng strwythurau, systemau a phrosesau sefydliadol. Yn unol ag egwyddor Gwreiddio Hawliau Plant Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, dylai cyrff cyhoeddus a BGCau sefydlu fforwm traws-ddisgyblaeth lefel uchel neu Uned Hawliau Plant i roi cyngor i strwythurau arweinyddiaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â phlant. Byddai hyn yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau bod ymrwymadau a wnaed o safbwynt hawliau plant yn y Datganiadau neu'r Cynlluniau Llesiant yn cael eu rhannu rhwng partneriaid a'u hidlo i lawr a'u hintegreiddio i waith beunyddiol cyflwyno gwasanaethau. Eto, gall Asesiad Effaith ar Hawliau Plant o Ddatganiadau a Chynlluniau Llesiant helpu cyrff cyhoeddus a BGCau i nodi'r ffordd orau iddynt

gydgysylltu eu camau gweithredu ynghylch hawliau plant ac ystyried sut mae modd gwneud cyfraniadau ar draws y Nodau Llesiant.

Gallai sefydlu Uned Hawliau Plant neu fforwm arweinyddiaeth lefel uchel ar gyfer plant a phobl ifanc helpu cyrff cyhoeddus a BGCau i ganfod heriau sefydliadau a nodi atebion ymarferol sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Er enghraifft, rydym ni'n gwybod bod diffyg integreiddio rhwng prosesau sefydliadol a systemau cyfathrebu yn golygu y gallai rhai plant profi nifer o wahanol asesiadau 'unedig' neu 'sengl' sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl neu ddull gweithredu'r Tîm o Gwmpas y Teulu. Mae'n aml yn dal yn aneglur pa un o'r fframweithiau asesu hyn sy'n cael blaenoriaeth.

Astudiaeth achos:

Gwreiddio hawliau plant

Swyddfa hawliau plant a phobl ifanc Cyngor Sir Benfro

Cyn cymryd y cam o fabwysiadu CCUHP yn ffurfiol, ceisiodd yr Awdurdod yn gyntaf ddangos, mewn modd ymarferol a mesuradwy, ei ymrwymiad i hybu hawliau plant, trwy sefydlu'r Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc (CYPRO).

Mae CYPRO yn gweithio i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc agored i niwed a rhai sydd wedi colli cysylltiad nid yn unig yn cael eu clywed, ond yn ganolog i sut mae'r sefydliad yn gweithio. Cyflawnir hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol, e.e. trwy gydweithio'n agos ag ysgolion i ddatblygu cyfranogiad disgyblion, trwy hwyluso fforymau ieuenctid, a thrwy hyfforddiant hawliau plant helaeth i staff a phobl ifanc.

Yn dilyn digwyddiadau lansio, pryd y mabwysiadodd Sir Benfro CCUHP yn ffurfiol, cynhyrchwyd Adduned ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (trwy gydweithio â'r bobl ifanc) a'i hanfon at bob disgybl ysgol yn Sir Benfro i ategu ymrwymiad Sir Benfro i gynnal eu hawliau o dan CCUHP. Cafodd pob ysgol hefyd ymweliad gan aelodau o'r tîm CYPRO i asesu eu hymarfer ynghylch llais y disgybl a hawliau plant, a lle roedd angen, cawsant gefnogaeth i wella trwy dderbyn hyfforddiant wedi'i deilwra.

Dysgu ar y Cyd, Gweithio ar y Cyd

Yn unol ag egwyddor Gwreiddio Hawliau Plant a amlinellwyd yn Y Ffordd Gywir, dylid cefnogi'r staff a'r arweinyddion i gydnabod a deall eu cyfraniad i bob un o'r saith Nod Llesiant trwy lens CCUHP. Yn ogystal â chefnogi staff i gydnabod ble gallant wneud eu prif gyfraniad i hawliau plant, dylid eu cefnogi i sylweddoli ymhle y gall eu cyfraniadau eu hunain i lesiant plant gefnogi gweithredoedd pobl eraill, neu gael eu cefnogi ganddynt.

O ganlyniad, dylai cyrff cyhoeddus a BGCau sicrhau bod iaith hawliau plant yn gweithredu fel edau aur ar hyd trafodaethau a threfniadau partneriaeth. Gall

hwyluso cyfleoedd dysgu cynhwysfawr ar draws adrannau neu bartneriaethau helpu ymarferwyr i gyflawni newidiadau go iawn ar flaen y gwasanaethau a gyflwynir, a gweithio ar y cyd i roi'r ymrwymadau a wneir yn eu Datganiadau neu eu Cynlluniau Llesiant ar waith. Dylid darparu offer, canllawiau a chyfleoedd hyfforddi i'r staff ac i arweinyddion, fel eu bod yn gallu datblygu capasiti o safbwynt arferion hawliau plant ym mhob adran a sefydliad ac ar eu traws.

Astudiaeth achos:

Gwreiddio hawliau plant

Cyngor Abertawe - cynllun hawliau plant a phobl ifanc: hawliau plant a datblygu'r gweithlu

Er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol eu hymrwymiad eu hunain i roi sylw dyledus i CCUHP, sefydlodd Cyngor Abertawe Gynllun Hawliau Plant a Phobl ifanc. Rhan o'r Cynllun hwn yw darparu hyfforddiant a chefnogi gwasanaethau i ystyried sut mae CCUHP yn berthnasol i'w gweithrediad o ddydd i ddydd a sut mae modd cymhwyso hawliau plant yn ymarferol neu eu gwreiddio yn seilwaith y gwasanaeth. Mae'r gyfres o raglenni hyfforddiant wedi cynnwys cwrs hyfforddi ar-lein yn benodol ynghylch CCUHP, hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer staff, partneriaid a rhanddeiliaid eraill, a hyfforddiant wedi'i deilwra i gefnogi ysgolion i gyflawni statws Parchu Hawliau UNICEF. Hyd yma mae 1654 o bobl ar draws y cyngor (uwch-arweinyddion, aelodau o'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu, y blynyddoedd cynnar, ysgolion, gwasanaethau ieuencid a PREVENT) wedi bod yn rhan o gyfleoedd datblygu'r gweithlu yng nghyswllt hawliau plant.

Hawliau plant a'r Pum Dull o Weithio

Gweithredu ar y cyd

Gweithredu ar y Cyd

Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn datgan:

Bod rhaid i gorff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth ... (d) Sut gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu sut gallai gwahanol rannau o'r corff gydweithio) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Ddeddf yn darparu mandad ar gyfer cydweithredu i gyrff cyhoeddus a BGCau, ac mae'n cydnabod na all un asiantaeth na sefydliad unigol ddiwallu anghenion mwyfwy cymhleth dinasyddion. Mae egwyddor Gwreiddio Hawliau Plant a amlinellir yn Y Ffordd Gywir hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith partneriaeth a chydweithredu wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Mae disgwyl i Ddatganiadau a Chynlluniau Llesiant Cyrff Cyhoeddus a BGCau nodi'n eglur sut maent yn bwriadu gwella bywydau plant a phobl ifanc yn yr ardal. Dylai'r Datganiadau a'r Cynlluniau Llesiant fod wedi'u gwreiddio yn egwyddorion CCUHP a rhoi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc. Gan dynnu ar gyfraniadau a wnaed gan y gymuned Cyrff Anllywodraethol, dylai'r Datganiadau a'r Cynlluniau Llesiant ffurfio sylfaen strategaeth gynhwysfawr sy'n uno er mwyn sicrhau hawliau plant a chydgyssylltu camau gweithredu cyrff cyhoeddus yn unigol ac ar y cyd ar draws yr ardal.

Mae'n bwysig sylweddoli mai ychydig o adrannau'r llywodraeth, os o gwbl, sydd heb effaith ar fywydau plant. Mae nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol (er enghraifft, Adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000

ac Adran 25 o Ddeddf Plant 2004) sy'n gofyn bod awdurdodau lleol yn cydweithio ac yn cydweithredu â phartneriaid er mwyn cynnal llesiant plant a phobl ifanc. Er mwyn cefnogi camau cydlynus a chydweithredol ar draws yr ardal, bydd angen i gyrff cyhoeddus a BGCau ystyried i ba raddau mae eu strwythurau sefydliadol yn llwyddo i adlewyrchu'r statws blaenoriaeth a roddwyd i blant a phobl ifanc yn eu Datganiadau a'u Cynlluniau Llesiant.

Wrth weithio tuag at eu Hamcanion Llesiant, dylai'r ymrwymiad i hawliau plant fod yn eglur weladwy, a dylai'r Datganiadau a'r Cynlluniau Llesiant nodi'n glir ble mae llinellau strategol cyfrifoldeb ac atebolrwydd o safbwynt plant a phobl ifanc yn eistedd yn y trefniadau sefydliadol. Bydd gwneud hyn yn golygu bod modd defnyddio dull gweithredu integredig sy'n cwmpasu anghenion llesiant plant a phobl ifanc ac yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i nodi cyfleoedd ar y cyd i gyfuno cyllidebau, adnoddau a sgiliau, er mwyn gweithredu ar y cyd ar draws pob un o'r Nodau Llesiant.

Astudiaeth achos:

'Ein Bro ni/our Vale' – strwythur bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Bro Morgannwg

Wrth sefydlu eu strwythurau partneriaeth, cytunodd BGC Bro Morgannwg i fabwysiadu Cynlluniau/Strategaethau, Strwythurau Partneriaeth a threfniadau rheoli perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynt, er mwyn sicrhau dilyniant tra bod gwaith yn digwydd ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant. Mae'r BGC wedi mabwysiadu cynlluniau a strategaethau'r BGLI gynt a'i [bartneriaethau allweddol](#), y BGC sydd bellach yn gyfrifol am gyflawni amcanion blaenoriaeth Strategaeth Gymunedol 2011-21 a llysoedd gwaith Cynllun Cyflawni 2014-18. Drwy wneud hynny, mae'r BGC wedi cynnal ffocws blaenoriaeth ar blant trwy integreiddio ei Fwrdd

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc gynt i'w Strwythurau BGC. Mae'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc (CYPB) yn gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y Fro yn derbyn digon o wybodaeth a chefnogaeth i fedru cyrchu ystod eang o wasanaethau o ansawdd sy'n eu galluogi i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn eu cymunedau lleol a'r tu hwnt. Mae'r BGC hefyd wedi sefydlu Grŵp Alinio Tlodi i eistedd o dan y CYPB er mwyn cyfuno Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl er mwyn cynyddu aliniad rhaglenni ac osgoi dyblygu.

Adolygu a gwella gyda'n gilydd

Mae'r Ddeddf yn darparu lefel sylweddol o hyblygrwydd pan ddaw'n fater o adolygu a newid Amcanion Llesiant. Yn ei hanfod, mae hynny'n galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i sbarduno diwylliant o adfyfrio a gwelliant sefydliadol parhaus. Drwy wneud hynny, gall cyrff cyhoeddus a BGCau asesu a yw eu hamcanion llesiant yn eu galluogi neu beidio i barhau i gymryd pob cam rhesymol i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, ac a ydynt yn dal yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy neu beidio.

Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau fynd ati'n rhagweithiol i gymryd camau i barhau'n atebol i blant a monitro'n rhagweithiol i ba raddau mae cynnydd yn

digwydd mewn perthynas â hawliau plant ar draws pob un o'r Nodau Llesiant. Dros amser, mae disgwyl i gyrff cyhoeddus a BGCau ddatblygu tystiolaeth a dulliau gweithredu sy'n eu galluogi i asesu'n eglur a yw eu hamcanion llesiant yn addas ar gyfer plant, gan gynnwys a yw'r camau a gymerwyd yn rhesymol, yng nghyd-destun y Ddeddf. Gallai hyn dynnu ar wybodaeth o'r mesurau perfformiad a fabwysiadwyd ganddynt, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, dangosyddion cenedlaethol neu natur y cynnydd yn erbyn y nodau llesiant a fydd yn dod i'r amlwg trwy'r cerrig milltir a gaiff eu gosod gan Weinidogion Cymru.

Wrth fonitro a gwerthuso'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â llesiant plant a phobl ifanc, mae'n aml yn gallu bod yn hawdd i gyrff cyhoeddus a BGCau ddibynnu ar gyflwyno ystadegau a ffigurau. Er bod dadansoddiad ystadegol yn chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o fonitro canlyniadau ac effeithiau, nid hyn yw'r unig sylfaen o dystiolaeth. Mae CPC a CCD wedi mynegi eu pryderon eisoes ynghylch sut mae'r Gyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol a geir fel rhan o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dibynnu'n drwm ar y data a gipiwyd fel rhan o'r Arolwg Cenedlaethol. Mae'r arolwg hwn yn eithrio barn, safbwyntiau a phrofiadau plant 0-15 oed; cyfran sylweddol o boblogaeth plant Cymru.

Fel mater o flaenoriaeth, dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn y broses feunyddiol o fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Dylai gyrff cyhoeddus a BGCau gydnabod hawl plant i gael eu clywed a gwneud ymdrechion sylweddol i gasglu gwirioneddau cymdeithasol a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc¹¹. Ynglwm wrth fanteision cyflwyno achos dros fuddsoddi mewn plant a blaenoriaethu dulliau gweithredu ymyrraeth gynnar ac atali ar draws plentyndod cyfan, mae CPC a CCD yn annog gyrff cyhoeddus a BGCau i feddwl yn arloesol ynghylch sut maen nhw'n casglu ac yn mesur y cynnydd hirdymor a wnaed mewn perthynas â hawliau plant ar draws pob un o'r saith Nod Llesiant. Er y gall rhai anawsterau godi wrth geisio dangos achosolrwydd eu hymyrraeth, anogir gyrff cyhoeddus a BGCau i gipio sut mae eu hymyrraeth wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac arddangos enillion unigol a chymdeithasol eu buddsoddiad.

Mae'r Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) yn fframwaith ar gyfer mesur a rhoi cyfrif am y cysyniad llawer ehangach hwn o werth; mae'n ceisio lleihau anghydraddoldeb a diraddio amgylcheddol, a gwella llesiant trwy ymgorffori costau a manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae

SROI yn mesur newid mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'r bobl neu'r sefydliadau sy'n ei brofi neu'n cyfrannu ato. Mae'n adrodd hanes sut mae newid yn cael ei greu trwy fesur y canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ac yn defnyddio gwerthoedd ariannol i'w cynrychioli. Mae hyn yn golygu bod modd cyfrifo cymhareb o fanteision. Er enghraifft, mae cymhareb o 3:1 yn dangos bod buddsoddiad o £1 yn arwain at £3 o werth cymdeithasol. Mae SROI yn ymwneud â gwerth, yn hytrach nag arian. Nid yw arian yn fwy nag uned gyffredin, ac felly mae'n ffordd ddefnyddiol, a dderbynnir yn gyffredinol, o gyfleu gwerth. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch defnyddio SROI yn fframwaith ar gael yma.

Fel mater o flaenoriaeth, dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn y broses feunyddiol o fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

¹¹. IDS (2017) The Social Realities of Knowledge for Development: Sharing lessons of improving development processes with evidence. [pdf] Ar gael ar-lein yn: https://opendocs.ids.ac.uk/opendocs/bitstream/handle/123456789/12852/Social_Realities_of_Knowledge_for_Development_FullIssue.pdf?sequence=1&isAllowed=y Cyrchwyd ar: 10/03/2017

ATODIAD 1


Mae'r tabl isod yn enghraifft o sut gellir mapio holl erthyglau CCUHP ar draws pob un o'r Nodau Llesiant. Nid rhestr hollgynhwysol yw hon, a gall erthyglau symud o un Nod Llesiant i un arall yn ôl eich cylch gwaith proffesiynol neu eich rhaglen waith eich hun.

Nod llesiant	Disgrifiad o'r nod	Erthyglau perthnasol: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
<p>Cymru Lewyrchus</p>	<p>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.</p>	<p>(4): Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau eu hawliau. Rhaid i lywodraethau sefydlu systemau sy'n hybu ac yn amddiffyn yr hawliau hyn.</p> <p>(5): Canllawiau i rieni a galluoedd esblygol plant</p> <p>(6): Bywyd, goroesi a datblygiad</p> <p>(18): Canllawiau i rieni a chyfrifoldebau'r wladwriaeth</p> <p>(26): Nawdd cymdeithasol</p> <p>(27): Safon byw sy'n ddigonol</p> <p>(28): Mynediad at addysg</p> <p>(29): Nodau addysg</p> <p>(42): Gwybodaeth am hawliau</p>
<p>Cymru Gydnerth</p>	<p>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>(4): Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau eu hawliau. Rhaid i lywodraethau sefydlu systemau sy'n hybu ac yn amddiffyn yr hawliau hyn.</p> <p>(13): Rhyddid mynegiant</p> <p>(15): Rhyddid cymdeithasu</p> <p>(17): Mynediad i wybodaeth; cyfryngau torfol</p> <p>(24): Iechyd a gwasanaethau iechyd</p> <p>(26): Nawdd cymdeithasol</p> <p>(27): Safon byw sy'n ddigonol</p>
<p>Cymru Iachach</p>	<p>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.</p>	<p>(3): Lles pennaf plant</p> <p>(6): Bywyd, goroesi a datblygiad</p> <p>(24): Iechyd a gwasanaethau iechyd</p> <p>(31): Seibiant, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniant, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau</p> <p>(33): Camddefnyddio cyffuriau</p> <p>(39): Adferiad ac ailsefydlu plant sy'n ddiodefnydd</p>

Nod Ilesiant	Disgrifiad o'r nod	Erthyglau perthnasol: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
Cymru Fwy Cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	<p>(1): Diffiniad o'r plentyn</p> <p>(2): Peidio â chamwahaniaethu: dylai pob plentyn gael y profiad o fwynhau'r Confensiwn</p> <p>(7): Enw a chenedligrwydd</p> <p>(8): Amddiffyn a diogelu hunaniaeth</p> <p>(12): Parch at farn y plentyn</p> <p>(20): Plant a amddifadwyd o deulu</p> <p>(21): Mabwysiad</p> <p>(22): Plant sy'n ffoaduriaid</p> <p>(23): Plant ag anabledau</p> <p>(25): Adolygu triniaeth mewn gofal</p> <p>(26): Nawdd cymdeithasol</p> <p>(27): Safon byw sy'n ddigonol</p> <p>(30): Plant lleiafrifoedd</p>
Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	<p>(9): Gwahanu oddi wrth rieni</p> <p>(10): Aduno teuluoedd</p> <p>(11): Rhyddid rhag cipio a masnachu pobl</p> <p>(12): Parch at farn y plentyn</p> <p>(13): Rhyddid mynegiant</p> <p>(14): Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd</p> <p>(15): Rhyddid cymdeithasu</p> <p>(16): Hawl i breifatrwydd</p> <p>(19): Rhyddid rhag trais, camdriniaeth ac ecsbloetio</p> <p>(22): Plant sy'n ffoaduriaid</p> <p>(25): Adolygu triniaeth mewn gofal</p> <p>(32): Amddiffyn rhag llafur plant</p> <p>(33): Camddefnyddio cyffuriau</p> <p>(34): Ecsbloetio rhywiol</p> <p>(35): Cipio, gwerthu a masnachu pobl</p> <p>(36): Mathau eraill o ecsbloetio</p> <p>(37): Triniaeth annynol a chaethiwo</p> <p>(38): Amddiffyniad rhag rhyfel a gwrthdaro arfog</p> <p>(39): Adferiad ac ailsefydlu plant sy'n ddiodefnydd</p> <p>(40): Cyfiawnder ieuencide</p> <p><i>*Erthyglau 1 i 10 ar y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar Werthu Plant, Puteinio Plant a Phornograffi Plant</i></p> <p><i>*Erthyglau 1 i 7 ar y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ynghylch ymwneud Plant â Gwrthdaro Arfog, disgwyl Erthygl 6(2)</i></p>

Nod Ilesiant	Disgrifiad o'r nod	Erthyglau perthnasol: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>	<p>(29): Nodau addysg</p> <p>(30): Plant lleiafrifoedd</p> <p>(31): Seibiant, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<p>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>	<p>(1): Diffiniad o'r plentyn</p> <p>(2): Peidio â chamwahaniaethu: dylai pob plentyn allu mwynhau'r Confensiwn</p> <p>(3): Lles pennaf y plentyn</p> <p>(4): Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau eu hawliau. Rhaid i lywodraethau sefydlu systemau sy'n hybu ac yn amddiffyn yr hawliau hyn.</p> <p>(6): Bywyd, goroesi a datblygiad</p> <p>(12): Parch at farn y plentyn</p> <p>(41): Parch at safonau cenedlaethol gwell</p> <p>(42): Gwybodaeth am hawliau</p>

ATODIAD 2



Asesu llesiant – beth sy'n bwysig i blant?: Mae'r data'n amlinellu'n eglur anghenion llesiant penodol plentyn. Mae data a ddadgrynhowyd ar gael ar sail y nodweddion a amddiffynnir sydd gan blant, a'u gwahanol anghenion sosio-economaidd. Mae perchnogaeth ar y data, ac mae ar gael i bartneriaid. Gwnaed cysylltiadau perthnasol â'r Gyfres Genedlaethol o Ddangosyddion. Defnyddiwyd y data i bennu tueddiadau plant yn y dyfodol. Nodwyd bylchau yn y data. Mae barn plant a phobl ifanc wedi cael ei chasglu wrth asesu.

Cynllunio llesiant – gwneud plant yn flaenoriaeth: Mae gan hawliau plant a'u hanghenion llesiant lefel uchel o amlygrwydd wrth osod blaenoriaethau. Mae barn plant a phobl ifanc wedi cael ei chasglu a rhoddwyd sylw iddi. Mae'r cynlluniau'n gwneud ymrwymiad uniongyrchol i hybu hawliau plant ac yn cael asesiad priodol o ran effaith. Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r plant mwyaf agored i niwed.

Cynllunio'r gweithlu: Mae hawliau plant a'u hanghenion llesiant wedi llywio gofynion cynllunio'r gweithlu. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gweithlu'n gallu ymateb i anghenion llesiant plant yn awr ac yn y dyfodol.

Cynllunio ariannol – cyllidebu ar gyfer plant: Mae cyllidebau'n cael eu dadansoddi a'u hasesu'n briodol o ran eu heffaith hirdymor ar hawliau plant. Mae uchafswm yr adnoddau sydd ar gael wedi cael ei ymrwymo i hybu llesiant plant. Mae gwybodaeth am y gwariant uniongyrchol ar blant yn cael ei darparu'n eglur. Mae plant a phobl ifanc yn rhan o brosesau pennu'r gyllideb, caffael a chomisiynu.

Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac ataliaeth: Mae ymyrraeth gynnar a chefnogaeth Ataliol yn cael ffocws blaenoriaeth wrth ddylunio a chynllunio gwasanaethau plant. Fodd bynnag, dylid sicrhau cydbwysedd fel bod amddiffyniad effeithiol i blant, diogelu a chefnogaeth mewn argyfwng.

Gwranddo ar blant a rhoi sylw i'w barn: Mae trefniadau priodol yn eu lle i gefnogi ymwneud gweithredol plant â phenderfyniadau a allai effeithio arnynt. Mae ystod eang o fecanweithiau (gan gynnwys sefydlu/cysylltiadau â Chyngor Ieuencid cynrychioliadol) ar waith i gynnwys plant a rhoi sylw i'w barn mewn asesiadau a phrosesau cynllunio ac adolygu. Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi cael eu mabwysiadu.

Dweud wrth blant am eu hawliau a darparu gwybodaeth briodol: Mae trefniadau gwybodaeth yn eu lle i helpu plant i wybod am eu hawliau yn CCUHP a'u hawlio. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn nodi'n glir pa wasanaethau sydd ar gael i blant a sut gall eu lleisiau gael eu clywed. Mae gwybodaeth yn cael ei darparu mewn modd sy'n briodol ar gyfer anghenion plant.

Bod yn agored, yn onest ac yn dryloiw gyda phlant: Mae trefniadau priodol yn eu lle i ddarparu adborth i blant a dweud wrthynt beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cynnwys. Mae plant yn cael diweddariad rheolaidd ynghylch cynnydd ac mae mecanweithiau yn eu lle i gynnwys plant wrth graffu.

Dysgu ar y cyd, gweithio ar y cyd: Mae'r gweithlu'n teimlo'n hyderus ac yn alluog ym maes hawliau plant. Mae staff a sefydliadau yn cydnabod eu cyfraniad unigol/ar y cyd at lesiant plant ac yn deall sut mae CCUHP yn berthnasol i'w gwaith.

Integreiddio: Mae hawliau plant a'u hanghenion llesiant wedi cael eu hystyried ar draws pob un o'r Nodau Llesiant. Mae'r trefniadau gweithio yn mwyafu'r cyfraniadau at wella llesiant plant o fewn a rhwng sefydliadau. Mae cydlyniant rhwng amcanion a chynlluniau sefydliadol.

Adolygu a gwella ar y cyd: Mae trefniadau monitro priodol ar waith i nodi'n glir y cynnydd a wnaed/y canlyniadau a gyflawnwyd o ran hawliau a llesiant plant. Defnyddir yr wybodaeth fonitro hon yn rheolaidd i ddarparu'r darlun diweddaraf ynghylch cyflwr llesiant plant ac mae'n llywio'r gwaith o adolygu amcanion a chynlluniau llesiant. Mae hyn yn cael ei gyfleu'n eglur i blant mewn dull sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion.

Gweithredu ar y cyd: Mae trefniadau partneriaeth yn rhoi ffocws clir ar blant ac yn nodi'n eglur y cyfrifoldeb o ran sut bydd sefydliadau'n cydweithio i wella hawliau a llesiant plant.